OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2545 (Cy.207) (C.107)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 17 Medi 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 181 a 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009.

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

Y diwrnodau penodedig

3.—(1) Daw darpariaethau canlynol Deddf 2006 i rym ar 12 Hydref 2009:

(a) adran 169 (gwahardd cymryd rhan mewn gwaith rheoli ysgol annibynnol);

(b) adran 170 (gwahardd cymryd rhan mewn gwaith rheoli: atodol);

(c) adran 171 (gwahardd cymryd rhan mewn gwaith rheoli: darpariaeth drosiannol).

(2) Daw darpariaethau canlynol Deddf 2006 i rym ar 1 Ionawr 2010:

(a) adran 89 ac eithrio is-adran (4);

(b) adran 96(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu is-adrannau (4) i (7) o adran 61 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

(c) adran 184 (diddymu) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau a nodir ym mharagraff (ch);

(ch) yn Rhan 6 o Atodlen 18 y diddymiad yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 o adran 61(4) i (7).

(**1**) 2006 p.40. Mae adran 181 wedi ei diwygio gan adran 23 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (2008 mccc 2).
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Darpariaeth drosiannol

4.—(1) Hyd nes y bydd adran 88 o Ddeddf 2006 yn cychwyn—

(a) mae'r cyfeiriad yn adran 89(2)(a) yn Neddf 2006 at adran 88(2)(a) i gael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at adran 61(2)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; a

(b) mae'r cyfeiriad yn adran 89(2)(b) yn Neddf 2006 at adran 88(2)(b) i gael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at adran 61(2)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Hyd nes y cychwynnir adran 89(4) o Ddeddf 2006 caniateir i'r mesurau y bydd pennaeth yn eu penderfynu o dan adran 89(1) o Ddeddf 2006 gynnwys gwneud rheolau a darpariaeth ar gyfer eu gorfodi.

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

17 Medi 2009